| | | |
|---|---|---|
| Mae bywyd wedi newid ac arafu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydw i wir wedi sylw ar a gwerthfawrofi y pethau sydd yn bwysig i fi. Rydw i hefyd wedi bod yn meddwl am pa fath o bethau byddaf yn newid neu cofio gwneud o gwbl yn y dyfodol. Mae'r poster sydd wedi ei atodi fel pdf (teitl: poster) yn esiampl o ambell beth. Ewch ati i ddylunio poster sydd yn dangos y pethau rydych chi wedi mwynhau neu wedi gwerthfawrogi yn ystod y 'lockdown' a rhai o'r pethau bydd yn bwysig i chi wrth symud ymlaen. Gallech gynnwys darluniau, ffotograffiau, clipiau fideo, clipiau sain neu yn wir unrhywbeth sydd yn cyfleu eich neges.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | **Lluosi – ymarfer dulliau ysgrifenedig**<br>Lluosi gyda rhif 1 digid – e.e. 435 x 4<br>Lluosi gyda rhif 2 ddigid e.e. 25 x 38 – dull grid<br>Lluosi gyda rhif 2 ddigid e.e. 25 x 38 – dull lluosi hir<br><br>Mae eich taflenni gwaith wedi eu hatodi ar pdf. Gweithiwch ar y rhai sydd yn briodol i chi. Rwyf wedi atodi ambell fideo sydd yn esbonio dulliau.<br>Cofiwch: Os ydych yn cael dulliau ysgrifenedig yn anodd oherwydd rydych yn ansicr o'ch tablau, yna ewch ati i ymarfer ar TTRocks a Hit the Button.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.***<br>Os ydych yn hyderus i fyny at luosi hir, rwyf wedi cynnwys gwaith algebra syml i chi. Os ydych yn cael hwn yn anodd, cysylltiwch drwy e-bost.<br>fideo - Lluosi gyda rhif 1 digid<br>fideo - lluosi gyda rhif 2 ddigid- dull grid<br>fideo - lluosi gyda rhif 2 ddigid - dull lluosi hir<br>fideo - algebra syml | **Blwyddyn 6 yn unig**<br>Mae'r amser symud ymlaen at Flwyddyn 7 yn prysur neshau a hoffem ddechrau casglu gwybodaeth ar gyfer eich blwyddlyfr. Year 6:<br>Ysgrifennwch am y canlynol:<br>• Eich diddordebau a hobiau<br>• Eich hoff atgofion o'ch amser yn Ysgol Castell-nedd<br>• Eich gobeithion ar gyfer y dyfodol<br><br>Rydw i wedi atodi enghreifftiau o'r math o bethau mae plant wedi ysgrifennu yn y gorffennol fel enghreifftiau i chi.<br>Bydd angen gwneud hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |
| Agorwch y ddogfen 'Y Treiglad Meddal'. Cywirwch y gwallau sydd yn y brawddegau ac wedyn ewch ati i greu brawddegau eich hun sy'n cynnwys treiglad meddal.<br><br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Ewch ati i greu pamffled yn seiliedig ar 7 Rhyfeddod y Byd Naturiol. Meddyliwch am: teitlau,is-deitlau, lluniau, diwyg a steil y pamffled (plygiadau). Gwnewch yn siwr eich bod yn ymchwilio'r wybodaeth yn gyntaf!<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Cywirwch yr atalnodi ar un o'r tri adroddiad sydd wedi eu darparu ("attached files"). Fe fydd angen ystyried defnydd cywir o symbolau atalnodi, yn ogystal a defnydd cywir o brif lythrennau. Gwaith Saesneg yw hwn.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |
| Gan bod llai o geir ar ein heolydd ar hyn o bryd, mae llawer o bobl yn dweud iddynt sylwi mwy ar synau byd natur o'u hamgylch, er enghraifft sŵn yr adar yn canu. Ewch ati i greu porthwr adar y gallwch osod yn eich ardal allanol chi a chofnodwch pa fathau gwahanol o adar sy'n dod i fwydo. Defnyddiwch y wê am syniadau ar gyfer eich porthwr adar. | Ymchwiliwch ar y wê i gasglu gwybodaeth am wahanol fathau o adar, paratowch Bwerbwynt neu Sway yn cyflwyno ffeithiau am yr hyn y gwnaethoch ddysgu. Cofiwch bydd rhaid i chi gynnwys manylion am y canlynol -<br>pryd a gwedd (lliw/maint/adennydd a.a.), cynefin, diet a.a. Yn ogystal bydd rhaid i chi feddwl am ffont, maint, a lluniau ac ati. | Dyluniwch fersiwn wefr-arwr o'ch hun! Fe ddylai'ch dyluniad gynnwys llun wedi'i labeli (gan gynnwys gwefr-ansoddeiriau perthnasol) a paragraff yn esbonio'ch pwerau (a'r rhesymau tu ôl iddynt).<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |

| | | |
|---|---|---|
| ***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | ***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | |